Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,
Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

23 Tachwedd 2023

Annwyl Gadeirydd,

Ymateb i Adroddiad ac Amgymhelliad y Pwyllgor — Cysylltiadau Cymru-Iwerddon

Mae Dirprwyaeth BIPA y Senedd yn croesawu ystyriaeth y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig (BIPA) fel rhan o'r ymchwiliad hwn i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon a'r cydnabyddiaeth o'i rôl bwysig wrth hwyluso'r perthnasoedd hyn. Mae'r ddirprwyaeth hefyd yn croesawu'r cyfle i drafod gwaith BIPA â'r Pwyllgor.

Bydd y ddirprwyaeth yn ystyried ffyrdd y gellir bwydo gwaith BIPA yn ôl i Fusnes y Senedd, gan gynnwys trwy bwyllgorau. Mae hon yn drafodaeth cyfredol oherwydd gwaith Pwyllgor Llywio BIPA ar gyfeiriad strategol y Cynulliad, a wnaeth awgrymiadau ynghylch adrodd yn flynyddol i ddeddfwrfeydd ar waith pwyllgorau er mwyn llywio dadleuon, a chyfathrebu adroddiadau Pwyllgor BIPA i bwyllgorau priodol ym mhob deddfwrfa. Rydym yn rhagweld y bydd y ddeialog hon yn parhau yn ein Cyfarfod Llawn nesaf, yn ogystal â thrafodaethau ynghylch cynyddu neu adolygu mandadau Pwyllgorau BIPA.

Rydym yn ymwybodol, wrth weithredu Fframwaith Rhyngwladol y Comisiwn, bod swyddogion yn ceisio cydlynu gweithgarwch rhyngwladol, gan gynnwys BIPA, mewn ffordd sy'n cyd-fynd â Busnes y Senedd. Mae'r ddirprwyaeth BIPA yn ymwybodol o'i rôl o ran hwyluso'r cydlynu o adnoddau yn effeithiol i gefnogi anghenion y Senedd a nodau a blaenoriaethau strategol y Comisiwn.

Bydd Dirprwyaeth y Senedd yn myfyrio ar argymhelliad y Pwyllgor ynghylch llenwi'r sedd wag, ac yn ystyried, yng ngoleuni trafodaethau BIPA parhaus, oblygiadau unrhyw newidiadau arfaethedig i Bwyllgorau BIPA ar gyfer y ddirprwyaeth ac aelodaeth y pwyllgorau.

Yn gywir,

David Rees AS, Dirprwy Lywydd

Heledd Fychan AS

Sarah Murphy AS

Darren Millar AS

Dirprwyaeth BIPA y Senedd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.